



National Lottery
Commission

Cynllun Iaith Gymraeg i'r Comisiwn Loteri Cenedlaethol

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan
Adran 14 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Daeth i rym ar 20 Medi 2010.

Cynllun Iaith Gymraeg i'r Comisiwn Loteri Cenedlaethol

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Daeth i rym ar 20 Medi 2010.



**Mae'r ddogfen yma ar gael mewn print bras.
Ffôn: 020 7016 3400
E-bost: info@natlotcomm.gov.uk**

1. Cyflwyniad a dull gweithredu	2
1.1 Cyd-destun	2
1.2 Y Comisiwn Loteri Cenedlaethol	3
1.3 Ein cwsmeriaid	4
2. Cynllunio Gwasanaethau a darparu'r cynllun iaith Gymraeg	5
2.1 Polisiau a Mentrau	5
2.2 Nodau	5
2.3 Darparu'r gwasanaeth	5
2.4 Safon gwasanaeth	5
3. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	6
3.1 Gohebiaeth	6
3.2 Cyfathrebu ar y ffôn	6
3.3 Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru	6
3.4 Cyfarfodydd eraill yng Nghymru	7
3.5 Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru	7
4. Ein delwedd gyhoeddus	8
4.1 Hunaniaeth gorfforaethol	8
4.2 Cyhoedduswydd	8
4.3 Cyhoeddiadau	8
4.4 Gwefan	9
4.5 Hysbysebu swyddi	9
5. Gweithredu	10
5.1 Adnoddau Dynol a recriwtio	10
5.2 Hyfforddiant iaith	10
5.3 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	10
5.4 Cyfrifoldeb	10
5.5 Monitro	11
5.6 Adolygu a diwygio'r cynllun	11
5.6 Awgrymiadau, cwynion a chysylltu	11
5.7 Rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun	12

1. Cyflwyniad a dull gweithredu

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y bydd y Comisiwn Loteri Cenedlaethol ('y Comisiwn') yn gweithredu, i'r graddau ei bod yn rhesymol ymarferol a phriodol yn yr amgylchiadau, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

1.1 Cyd-destun

Mae cyrff sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Nod y ddeddfwriaeth hon yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn gydradd â siaradwyr Saesneg wrth weithredu busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â phob gwasanaeth a ariennir yn gyhoeddus, megis ymddiriedolaethau iechyd, awdurdodau lleol ac adrannau'r llywodraeth.

Mae cynllun iaith Gymraeg yn galluogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus yn eu hiaith eu hunain, fel y mae siaradwyr Saesneg yn gwneud. Mae'n cryfhau sefydliad trwy ganiatáu iddo asesu anghenion iaith ac amrywiaeth ei staff a'i gwsmeriaid, ac mae'n cyfrannu at wella cydraddoldeb.

Yn y cynllun iaith Gymraeg ('y cynllun') hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, pobl sydd â chyswllt â'r gyfraith a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynsyth, neu gyfran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau . Daw cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Nid yw, er hynny, yn cynnwys pobl sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol, hyd yn oed os nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyfraith, yn dod o fewn cwmpas y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y gweithredir hyn gan y Comisiwn trwy ddangos pa wasanaethau a fydd ar gael yn Gymraeg a sut y byddant yn cael eu darparu.

Caiff y cynllun ei fonitro gan Dîm Cyfathrebu'r Comisiwn a gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg trwy gyfrwng adroddiadau ar gynnydd, ynghyd â gwerthusiad mwy manwl unwaith y bydd y cynllun wedi cael cyfle i ymsefydlu ar ôl cyfnod o bedair blynedd.

Mae pob cynllun Iaith Gymraeg yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gellir gweld gwybodaeth bellach am gwmpas cynlluniau Iaith Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.byig-wlb.org.uk).

1.2 Y Comisiwn Loteri Cenedlaethol

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am drwyddedu a rheoleiddio'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Comisiwn yn diogelu chwaraewyr ac unplygrwydd y Loteri, ac yn gwneud y defnydd helaethaf o arian i achosion da. Mae'r Comisiwn hefyd yn rhedeg y gystadleuaeth am y drwydded i ddewis y sawl sy'n rhedeg y Loteri. Corff cyhoeddus anadrannol yw'r Comisiwn, a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth. Ariennir gwaith y Comisiwn gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF).

Ein dyletswyddau statudol yw:

- Sicrhau bod y Loteri Genedlaethol, a phob loteri sy'n rhan ohoni, yn cael ei rhedeg yn gwbl briodol;
- Sicrhau bod buddiannau pawb sy'n cymryd rhan yn y Loteri'n cael eu diogelu
- Yn amodol ar y ddwy ddyletswydd hyn, gwneud ein gorau i sicrhau bod elw'r Loteri Genedlaethol mor fawr ag y bo modd.

Sefydliad bychan o 40 o bobl yn gweithio yng nghanol Llundain yw'r Comisiwn. Fel corff rheoli bychan, mae prif berthynas y Comisiwn gyda'r corff preifat sy'n rhedeg y Loteri a gyda budd-ddeiliaid eraill mewn loteriau eraill ac yn y llywodraeth. Ceir peth rhyngweithiad â'r cyhoedd, fel arfer chwaraewyr sydd ag ymholiad neu gŵyn am sut y rhedir y Loteri. Nid oes swyddogaeth farchnata uniongyrchol ac felly mae'n bosibl na fydd gweithgareddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg mor gynhwysfawr ag yn achos awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n ymwneud ag ystod ehangach o'r cyhoedd.

Fel sefydliad, mae'r Comisiwn yn gweithredu ac yn hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Unigol cynhwysfawr. Mae hwn yn sicrhau bod pob mater sy'n ymwneud â chydaddoldeb yn ategu amcanion busnes strategol ac yn cael eu hadlewyrchu mewn polisiau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod lle i wella ymhellach, ac felly y drafftwyd y cynllun hwn sy'n amlinellu rhan o'n strategaeth at y dyfodol o ran parhau i hyrwyddo safonau cydraddoldeb.

Gwefan y Comisiwn yw: www.natlotcomm.gov.uk

1.3 Ein cwsmeriaid

- **Chwaraewyr y Loteri**

Mae'r Comisiwn wedi comisiynu Camelot Group ccc i redeg y Loteri Genedlaethol a Camelot sy'n gyfrifol am ymateb i gwynion ac ymholiadau gan chwaraewyr a'r cyhoedd. Lle bo chwaraewr yn anfodlon ar ymateb Camelot, bydd tîm Diogelu Defnyddwyr y Comisiwn yn adolygu'r achos hwnnw.

Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn ymdrin â chwynion ac ymholiadau mewn perthynas â'i rôl, er enghraifft ymholiadau am y penderfyniad i drwyddedu gêm Loteri Genedlaethol neilltuol. Byddwn yn derbyn tua 1,700 o gwynion ac ymholiadau bob blwyddyn. Fel arfer mae chwaraewyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cysylltu trwy e-bost, ffôn, post, a ffacs o bryd i'w gilydd.

- **Budd-ddeiliad**

Hysbysir budd-ddeiliaid am waith y Comisiwn ac am sut y byddwn yn ceisio sicrhau Loteri deg a diogel i'r genedl. Mae'r Loteri'n rhan o fywyd llawer o bobl yn y DU ac mae'r Comisiwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu perthynas gydag amrywiaeth o bobl. Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys y cwmni sy'n rhedeg y Loteri, chwaraewyr, y llywodraeth, grwpiau cred, academyddion a rheoleiddwyr eraill megis y Comisiwn Hapchwarae.

2. Cynllunio Gwasanaethau a darparu'r cynllun iaith Gymraeg

2.1 Polisiâu a Mentrau

Wrth iddo weithredu polisiâu a mentrau newydd yng Nghymru bydd y Comisiwn yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bo modd ac yn hybu egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

2.2 Nodau

Wrth iddo weithredu a darparu'r cynllun hwn nodau'r Comisiwn yw:

- Sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cydymffurfio â safon Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Gwneud y Cynllun Iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o waith y Comisiwn a sicrhau bod proffil amlwg iddo ymhlith staff; a
- Gwella'r gwasanaeth trwy fonitro ei effeithiolrwydd.

2.3 Darparu'r gwasanaeth

Byddwn yn sicrhau bod cynifer â phosibl o'n gwasanaethau ar gael yn Gymraeg – a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

2.4 Safonau gwasanaeth

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddarparu tair elfen allweddol o ran safonau gwasanaeth wrth ddelio â chwsmeriaid sy'n defnyddio'r Gymraeg:

- Cynigir dewis i rai sy'n siarad Cymraeg ynglŷn â pha iaith y maent yn dymuno cyfathrebu ynddi;
- Bydd cysondeb wrth ddelio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg drwy'r sefydliad; a
- Trinnir y Gymraeg a'r Saesneg, lle y gellir, yn gyfartal.

3. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

3.1 Gohebiaeth

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Atebir llythyrau ac e-byst a dderbynnir yn Gymraeg, yn Gymraeg, o fewn yr un terfyn amser ag atebion yn Saesneg.

Lle bo'r Comisiwn yn gwybod y byddai'n well gan aelod o'r cyhoedd gysylltu yn Gymraeg, trwy Gronfa Ddata Siaradwyr Cymraeg a luniwyd gan ein Tîm Diogelu Defnyddwyr, cychwynnir gohebiaeth yn Gymraeg.

Bydd y Comisiwn yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i'w staff ar ddelio â gohebiaeth yn Gymraeg.

3.2 Cyfathrebu ar y ffôn

Oherwydd ein maint, ni fyddai'n ymarferol bosibl inni gynnal sgysiau dros y ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, os byddwn yn sefydlu llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg dros y ffôn, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gefnogaeth i'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebhir hwn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg a bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif.

Bydd y Comisiwn yn monitro nifer y ceisiadau gan y cyhoedd y maent well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ystyried mesurau ychwanegol os bydd y galw'n cyfiawnhau hynny.

3.3 Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

Nid yw'r Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ond petai'n gwneud hynny yng Nghymru, byddai darpariaethau yn eu lle er mwyn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gyfrannu naill ai trwy aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu drwy wasanaeth cyfieithu. Byddai cyhoeddiadau i'w defnyddio mewn unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog a byddent yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod inni ymlaen llaw pa iaith y maent am ei siarad.

Bydd hysbysebion a gwahoddiadau i gyfarfodydd yng Nghymru yn ddwyieithog, ac felly unrhyw ddogfennau yn sgil cyfarfodydd megis cofnodion neu adroddiadau gan fyrddau.

3.4 Cyfarfodydd eraill yng Nghymru

Ni fyddai'n ymarferol i'r Comisiwn gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.5 Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

Os bydd y Comisiwn yn cynnal arolygon ymhlith y cyhoedd yng Nghymru bydd yn ymdrechu i sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu'n ddwyieithog.

4. Ein delwedd gyhoeddus

4.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Mae'r Comisiwn yn gweithredu ledled y DU ac weithiau fe'i cynrychiolir ar lefel ryngwladol. Fe'u rhwymir felly gan ganllawiau ynglŷn â'i hunaniaeth ac ni fydd yn mabwysiadu fersiwn ddwyieithog o unrhyw logo, manylion cyswllt, sloganau neu unrhyw ddeunydd safonol sy'n dwyn hunaniaeth gorfforaethol y Comisiwn.

Fodd bynnag bydd cyfieithiad Cymraeg o enw a chyfeiriad y Comisiwn ('Comisiwn Loteri Cenedlaethol') yn ymddangos ar ddogfennau a gyfieithwyd, a chyfieithir penawdau ar lythyrau a atebir yn Gymraeg.

4.2 Cyhoeddusrwydd

Cyhoeddir ymgyrchoedd yn y cyfryngau, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu i'r DU gyfan yn Saesneg ar wahân i gyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd a deunydd hysbysebu/arddangosfeydd sy'n ffocysu ar Gymru neu a ddosberthir yn bennaf yng Nghymru. Bydd y rhain yn ymddangos yn ddwyieithog.

Cyhoeddir datganiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau Cymraeg yng Nghymru yn Gymraeg lle bo terfynau amser yn caniatáu hynny.

4.3 Cyhoeddiadau

Byddwn yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn amodol ar y system sgorio a grybwyllir isod, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, i gytuno arni gyda'r Bwrdd, i allu adnabod mewn ffordd wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau ar wahân neu fersiynau dwyieithog.

Os bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfen ar wahân (am eu bod yn rhy hir neu anhylaw) bydd ansawdd y ddwy fersiwn yr un fath, byddant ar gael yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch. Bydd y ddwy'n nodi bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

4.4 Gwefan

Bydd gwefan y Comisiwn yn cynnwys tudalennau Cymraeg trwy weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynyddu'r cynnwys iaith Gymraeg dros amser.

Yn y dyfodol, adeg ail-ddylunio'r wefan, bydd y Comisiwn yn cymryd i ystyriaeth yr angen am dudalennau cynhwysfawr yn Gymraeg yn unol â *Chanllawiau a Safonau Meddalwedd Ddwylieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Os byddant ar gael, cyhoeddir fersiynau Cymraeg o ddogfennau Saesneg yn gyfamserol ar y safle.

4.5 Hysbysebu swyddi

Bydd hysbysebion am swyddi yn y cyfryngau cenedlaethol yn ymddangos yn Saesneg. Petai'r Comisiwn yn cyhoeddi hysbysebion yn y cyfryngau Cymraeg byddai'r rheini'n uniaith Gymraeg.

Bydd unrhyw hysbysebion am swyddi a gyhoeddir mewn papur newydd neu gyfnodolyn a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog. Lle mae'r gallu i siarad Cymraeg ar gyfer swydd yn ddymunol bydd hysbysebion am swyddi yn ddwyieithog hefyd.

Lle mae'r gallu i siarad Cymraeg ar gyfer swydd yn hanfodol bydd hysbysebion am swyddi yn Gymraeg yn unig.

Bydd hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau am recriwtio staff a gyhoeddir yng Nghymru yn ddwyieithog.

5. Gweithredu

5.1 Adnoddau Dynol a recriwtio

Nid oes gennym swyddfeydd yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn ceisio gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr am swyddi a staff cyfredol.

Yn achos unrhyw swyddi lle mae cyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn fedr dymunol neu hanfodol – a nodir hyn mewn disgrifiadau o swyddi ac mewn hysbysebion.

5.2 Hyfforddiant iaith

Rhoddir cymorth i staff sydd am ddysgu neu am wella'u Cymraeg os yw siarad yr iaith yn angenrheidiol yn eu gwaith neilltuol.

5.3 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Atebir yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh byddwn yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Ddwylieithog y Bwrdd.

5.4 Cyfrifoldeb

Mae'r mesurau sydd yn y cynllun hwn yn dwyn holl awdurdod a chymeradwyaeth y Comisiwn. Mae rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith. Dirprwyir aelod uwch o staff i oruchwylio'r gwaith sy'n ofynnol i weithredu'r cynllun hwn. (Gweler yr **Amserlen** amcan 7).

Sefydlir amserlen i sicrhau bod y Comisiwn yn cadw at yr ymrwymadau a geir yn y cynllun hwn o fewn cyfnod rhesymol. Bydd cyfarwyddiadau ar ddesgiau staff a sesiynau briffio iddynt yn cael eu paratoi er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mesurau sydd yn y cynllun hwn.

Mae'n bwysig pwysleisio bod unrhyw fusnes a wneir gan y Comisiwn sydd heb gael sylw penodol yn y cynllun hwn yn gyson â'i egwyddorion.

Dim ond cyfieithwyr cymwysedig sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu o sefydliad tebyg a ddefnyddir gan y Comisiwn.

5.5 Monitro

Caiff cynnydd ei fonitro yn ôl y targedau a geir yn y cynllun gweithredu ynghlwm (er enghraifft, amserau ateb gohebiaeth yn Gymraeg). Anfonir adroddiadau cynnydd at reolwyr uwch ac fe'u cedwir mewn ffeil i Fwrdd yr Iaith Gymraeg eu gweld.

Gofynnir i reolwyr adrodd wrth y rheolwyr uwch am unrhyw agweddau ar y cynllun hwn sy'n effeithio ar eu meysydd busnes, er enghraifft wrth ymwneud â'r cyhoedd sy'n siarad Gymraeg.

Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd o ran darparu'r cynllun hwn wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pan fydd y Bwrdd yn gofyn inni wneud hynny.

5.6 Adolygu a diwygio'r cynllun

Caiff y cynllun ei adolygu o fewn pedair blynedd wedi iddo ddod i rym. Mae'n bosibl y bydd angen diwygiadau oherwydd newidiadau i swyddogaethau'r Comisiwn ond ceisir cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ni newidir y cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.6 Awgrymiadau, cwynion a chysylltu

Dylid anfon y rhain at:

Tîm Cyfathrebu

Comisiwn Loteri Cenedlaethol

101 Wigmore Street

London W1U 1QU

neu drwy e-bost at: publicaffairs@natlotcomm.gov.uk

Bydd y Comisiwn yn cydweithredu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ymateb i unrhyw gwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

5.7 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun

Bydd y Comisiwn yn cymryd camau i sicrhau bod ei Gynllun Iaith Gymraeg yn cael cyhoeddusrwydd trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, budd-ddeiliaid a phartneriaid. Bydd copi o'r cynllun ar wefan y Comisiwn.

6. Amserlen

Mae hon yn amlinellu terfynau amser y Comisiwn ar gyfer yr hyn y dymuna ei gyflawni.

Amcanion/Nodau	Gweithred	Canlyniad	Yn Eiddo i	Terfyn Amser
1. Adnabod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg	Adnabod unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg a llunio a dosbarthu'r rhestr trwy gydol y Comisiwn	Mae'r staff yn adnabod siaradwyr Cymraeg ac yn cael galw arnynt am gymorth wrth ymdrin â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg	Adnoddau Dynol	3 Mis
2. Sefydlu perthynas gyda gwasanaeth cyfieithu proffesiynol	Adnabod gwasanaeth cyfieithu cymwys	Cynnig gwasanaeth proffesiynol i siaradwyr Cymraeg	Cyfathrebu	3 Mis
3. Sicrhau cydymffurfiad o ran gohebiaeth/gwefan Gymraeg	Defnyddio gwasanaeth cyfieithu i archebu templedi penawdau papur a llofnodion e-bost i'w defnyddio yn ôl y gofyn. Creu tudalen ar y we yn Gymraeg	Bydd cwsmeriaid Cymraeg yn derbyn gohebiaeth gan y Comisiwn yn eu dewis iaith	Cyfathrebu	3 Blynedd
4. Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ar draws y sefydliad; a sut mae staff i ymwneud â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg	Trefnu papur briffio ar y Cynllun Iaith Gymraeg i bob aelod o staff	Gwell ymwybyddiaeth o ymroddiad y Comisiwn i'r Cynllun	Cyfathrebu	6 Mis
5. Monitro nifer y ceisiadau yn Gymraeg	Cofnodi galwadau, llythyrau ac e-byst a dderbyniwyd yn Gymraeg	Cynnwys categori siaradwyr Cymraeg yng nghronfa ddata'r adran Diogelu Cwsmeriaid er gwybodaeth yn y dyfodol	Diogelu Cwsmeriaid	3 Blynedd
6. Sicrhau bod dogfennau ar gyfer penodi i swyddi yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Cynllun	Adolygu dogfennau'r broses o wneud cais am swyddi	Dogfennau am swyddi sy'n hygyrch i siaradwyr Cymraeg	Adnoddau Dynol	3 Blynedd
7. Arweinydd prosiect i oruchwylio gweithredu'r Cynllun	Penodi aelod uwch o staff i oruchwylio gofynion y Cynllun	Anfon adroddiadau ar gynnydd at y Tîm Rheolwyr Uwch	Cyfathrebu	6 Mis

National Lottery Commission
101 Wigmore Street
London W1U 1QU

Tel +44 (0)20 7016 3400
Fax +44 (0)20 7016 3401

Email publicaffairs@natlotcomm.gov.uk

www.natlotcomm.gov.uk